



**Cynllun Iaith Gymraeg
[Cymdeithas Gofal Hafod]**

**Cynllun iaith Gymraeg a baratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
(y Ddeddf) a'r Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru,
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006.**

**Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan
adran 14(1) y Ddeddf ar 08/07/2008.**



1. Datganiad Agoriadol

Nod y Cynllun

Mae Cymdeithas Gofal Hafod wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Amcanion:

- galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu sydd mewn trafodaeth gyda'r Gymdeithas i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn
- hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cydnabod mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Gymdeithas felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin â hi yn unol â'r egwyddor isod.

2. Cyflwyniad

➤ Cefndir a Gwerthoedd Corfforaethol

- Ffurfiwyd y Gymdeithas yn 1998 ac mae wedi'n datblygu'n ddarparwydd blaenllaw o ofal a llety tai â chymorth ar draws de ddwyrain Cymru
- Ein gweledigaeth yw gweithio gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth i greu datrysiadau tai â chymorth, sy'n grymuso unigolion i dyfu mewn hyder, gan deimlo y medrant wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu bywydau a mwynhau bywyd yn y gymuned.

➤ Strwythur ac Ardal Gweithredu

- Caiff y Gymdeithas ei llywodraethu gan Fwrdd gwirfoddol o hyd at 15 Aelod. Mae gan ein Haelodau Bwrdd amrediad o sgiliau a phrofiad yn cynnwys cysylltiadau cymunedol, gofal a chymorth, ynghyd â rheolaeth busnes a chyllid. Mae'r Gymdeithas yn annog

ymgyfraniad preswylwyr/tenantiaid drwy rwydwaith o Bwyllgorau Tai a Chymdeithasau Tenantiaid.

- Staffio - mae'r Gymdeithas yn cyflogi 452 o staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff hyn yn gweithio yng ngwahanol gynlluniau gofal a chymorth tai y Gymdeithas.
- Mae'r Gymdeithas yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth tai yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Chasnewydd a, lle bynnag y mae'n bosibl, mae'n darparu'r ystod ehangaf o ddatrysiadau gofal a chymorth i'r rhai mewn angen.

➤ Defnyddwyr Gwasanaeth

- Mae prif grŵp cleientiaid y Gymdeithas yn cynnwys yr henoed a phobl gyda phroblemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, drwy weithio mewn partneriaeth, medrwn ehangu'r amrediad gwasanaethau a gynigiwn i'r digartref, pobl ifanc agored i niwed a rhai gydag anawsterau corfforol a dysgu.

➤ Yr Iaith Gymraeg

Mae'n galonogol fod nifer a chanran y bobl sy'n medru siarad Cymraeg yn yr ardaloedd lle gweithiwn wedi cynyddu a bellach yn sefyll ar 11.3%, gan amrywio rhwng 10.2% a 12.5%. Dylai'r ffaith galonogol hon barhau, gan fod y canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn ymhlith plant a phobl ifanc.

Byddwn yn ymdrechu i weithredu yn unol ag egwyddorion Iaith Pawb, cynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ddwyieithog.

Y pwynt cyswllt ar gyfer y Cynllun Iaith yw'r Cyfarwyddwr Gofal a Chymorth. Medrir cysylltu ag ef ar 029 2078 2300, davidl@hafodcare.org.uk

3. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau

3.1 Polisiau a Mentrau

- 3.1.1 Wrth lunio polisiau a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisiau, bydd y Gymdeithas yn asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith hwn ac yn sicrhau bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiau a mentrau newydd ar waith.

3.1.2 Bydd y Gymdeithas yn ymgynghori â'r Bwrdd ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwriad fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Bwrdd ymlaen llaw.

3.1.3 Byddwn yn sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Gymdeithas o dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

3.2 Darparu Gwasanaeth

3.2.1 Byddwn yn sicrhau bod cymaint â phosibl o'r gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

3.2.2 Bydd y Gymdeithas yn cyflawni'r ymrwymïadau a nodir yn y Cynllun drwy weithredu'r trefniadau canlynol:

- galluogi swyddogion o un swyddfa a all siarad Cymraeg i gynorthwyo swyddfa arall pan gwyd yr angen;
- cyflogi cyfieithwyr proffesiynol;
- codi ymwybyddiaeth ymysg staff y Gymdeithas am ofynion y Cynllun Iaith;
- ystyried yr angen i gynyddu argaeledd sgiliau iaith Gymraeg drwy hyfforddi a phenodi.

3.3 Gwasanaethau a gyflwynir i'r cyhoedd gan sefydliadau eraill

Swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti

3.3.1 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti yn gyson â rhannau perthnasol y Cynllun hwn.

3.4 Safonau Ansawdd

3.4.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

3.4.2 Bydd y Gymdeithas yn datgan yr egwyddor hon mewn dogfennau allweddol fel cynlluniau corfforaethol ac adroddiadau blynyddol.

4. Delio â'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

- 4.1.1 Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg.
- 4.1.2 Ymdrinnir â phob gohebiaeth yn brydlon a ni ddylai gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun arwain at oedi.
- 4.1.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).
- 4.1.4 Yn Gymraeg y bydd yr holl ohebiaeth yn dilyn sgwrs ffôn neu wyneb yn wyneb yn Gymraeg neu gyfarfod lle sefydlwyd y byddai'n well gan berson ohebu yn Gymraeg.
- 4.1.5 Byddwn yn cytuno ar drefniadau ar gyfer gohebiaeth ac ar gyfer trefnu cyfieithu.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

- 4.2.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a'n harfer safonol yw sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.
- 4.2.2 Bydd staff ein switsfwrdd yn ateb galwadau ffôn gyda chyfarfodiad dwyieithog.
- 4.2.3 Er mwyn cwrdd â'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal byddwn yn gweithredu'r camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ddelio â'r Gymdeithas yn Gymraeg dros y ffôn:
 - darparu cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt
 - rhoi canllawiau i staff ar sut i ddelio â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau.

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 4.3.1 Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus gan y Gymdeithas, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau eraill tebyg, bydd croeso i'r rhai fydd yn bresennol i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

4.3.2 Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai a wahoddir i fod yn bresennol neu os yw'n wybyddus fod siaradwyr Cymraeg am fynychu, dylid trefnu cyfleusterau cyfieithu.

4.4 Cyfarfodydd Eraill

4.4.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn Gymraeg neu'n Saesneg, ond oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg, ni allwn warantu cyfarfod wyneb i wyneb yn Gymraeg. Mewn amgylchiadau felly byddwn yn esbonio'n gwrtais beth yw'r sefyllfa a chynnig opsiynau eraill, megis trefnu cyfieithu neu symud ymlaen gyda'r cyfarfod yn Saesneg.

4.4.2 Os yw'n amlwg fod galw cyson am gyfarfodydd wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg, a'n bod yn methu cwrdd â'r gofyn hwnnw, byddwn yn ystyried camau gweithredu megis hyfforddi neu benodi staff ddwyieithog.

4.5 Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

4.5.1 Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o gwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha fodd bynnag y byddwn yn delio â'r cyhoedd.

4.5.2 Byddwn yn gweithredu a chynnal gwefan ddwyieithog.

5. Wyneb Cyhoeddus y Gymdeithas

5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

5.1.1 Rydym yn ymroddedig i ddatblygu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog a byddwn yn mabwysiadu delwedd gyhoeddus ddwyieithog yn ystod oes y Cynllun hwn.

5.2 Arwyddion

5.2.1 Pan fyddwn yn adnewyddu neu ailosod unrhyw arwyddion byddwn yn sicrhau bod fersiynau newydd yn gwbl ddwyieithog. Bydd arwyddion sy'n cael eu codi am y tro cyntaf yn gwbl ddwyieithog.

5.2.2 Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

5.2.3 Ein harfer safonol fydd darparu arwyddion dwyieithog, ond mewn achosion pan gaiff arwyddion Cymraeg a Saesneg eu darparu ar wahân byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.2.4 Pan fydd y Gymdeithas yn datblygu stad tai newydd neu lety arall, bydd y Gymdeithas yn awgrymu enw sy'n gyson â threftadaeth a hanes yr ardal.

5.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd

5.3.1 Byddwn yn cynhyrchu ein dogfennau strategol allweddol neu'r rhai a anelwyd at y cyhoedd yn gyffredinol mewn ffurf ddwyieithog.

5.3.2 Ein harfer safonol fydd darparu cyhoeddiadau dwyieithog, ond mewn rhai achosion am resymau ymarferol, byddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mewn achosion o'r fath byddwn yn dosbarthu'r fersiynau yr un pryd â'i gilydd. Byddant hefyd yr un mor hawdd i'w cael a bydd y ddwy fersiwn yn cynnwys neges yn dweud bod fersiwn ar gael yn yr iaith arall.

5.3.3 Byddwn yn sicrhau bod staff a'r rhai sy'n gyfrifol am argraffu yn gwybod am y polisi a gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi.

5.4 Ffurflenni a deunydd esboniadol

5.4.1 Byddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog lle mae'n rhesymol ymarferol ac addas dan yr amgylchiadau.

5.4.2 Pan fyddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog, ein harfer safonol fydd cynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

5.5 Datganiadau i'r wasg

5.5.1 Mae datganiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus y Gymdeithas a byddwn felly yn eu cyhoeddi yn ddwyieithog pan fo'n briodol dan yr amgylchiadau.

5.6 Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoeddusrwydd

5.6.1 Bydd ein hymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio gydag adrannau perthnasol y Cynllun hwn.

5.7 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

5.7.1 Bydd ein hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog pan fo'n briodol dan yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.7.2 Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn ddwyieithog ar gyfer swyddi lle mae angen sgiliau yn y Gymraeg.

6. Gweithredu ac Adolygu'r Cynllun

6.1 Staffio

6.1.1 Byddwn yn gwneud trefniadau i sicrhau i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol bod gan y gweithfannau sydd â chyswllt â'r cyhoedd fynediad i staff sydd â'r sgiliau priodol yn yr iaith Gymraeg er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg. Bydd y graddau y ceir hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio yn dibynnu ar y gwasanaeth a'r ardal.

6.1.2 Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau drwy ein polisi recriwtio a hyfforddi, neu drwy ystyried y posibilrwydd o ail-leoli staff yn fewnol.

6.2 Recriwtio

6.2.1 Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol bod ymgeisydd yn meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg, nodir hyn yn glir yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion. Byddwn hefyd yn nodi'r lefel cymhwyster sydd ei angen ar gyfer y swydd, er enghraifft "siarad Cymraeg yn rhugl".

6.3 Hyfforddiant Cymraeg

6.3.1 Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Iaith hwn drwy annog a chefnogi aelodau o staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg.

6.3.2 Bydd geiriaduron a deunydd electronig ar gael i gynorthwyo staff sy'n dysgu Cymraeg.

6.3.3 Bydd y Gymdeithas yn rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff ynglŷn â disgwiliadau'r Cynllun hwn. Ein harfer safonol

fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth anwytho staff newydd.

6.4 Trefniadau Gweinyddol

6.4.1 Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y Gymdeithas. Y Rheolwr Gyfarwyddwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad y Cynllun laith ac mae gan bob aelod o staff y Gymdeithas gyfrifoldeb i wybod sut mae gweithredu'r Cynllun yn effeithiol.

6.5 Adolygu Gweithredu'r Cynllun

6.5.1 Bydd y Cyfarwyddwr Gofal a Chymorth yn monitro ac adolygu'r Cynllun hwn.

6.5.2 Byddwn yn defnyddio ein trefn gwyno arferol i gofnodi a delio â chwynion am y Cynllun hwn ac yn sicrhau bod modd monitro cwynion penodol am y Cynllun.

6.5.3 Bydd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn rhoi adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ac yn anfon copi o'r adroddiad at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat wedi ei gytuno â'r Bwrdd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau gwelliant i'r Cynllun a dderbyniwyd gan y cyhoedd.

6.6 Cyhoeddi Gwybodaeth

6.6.1 Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi ble gall aelod o'r cyhoedd gael gafael ar gopi o'n adroddiad monitro blynyddol at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.7 Cyhoeddusrwydd

6.7.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n delio â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut y gallant ddelio â'r Gymdeithas yn Gymraeg.

6.7.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol, gan gynnwys sicrhau y caiff y Cynllun ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.